Telerau ac Amodau Archebu Plas Menai

Telerau ac Amodau

DARLLENWCH YR AMODAU A GANLYN YN OFALUS CYN CWBLHAU EICH ARCHEB

1.Dehongli

1.1 Bydd y diffiniadau a ganlyn a'r rheolau dehongli'n berthnasol yn yr amodau hyn:

Ystyr "**Canolfan**" yw Cyngor Chwaraeon Cymru, cwmni sydd wedi'i greu gan Siarter Brenhinol ac sy'n masnachu fel Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai ar gyfer Cymru;

Ystyr "**Amodau**" yw'r telerau a'r amodau hyn ar gyfer darparu Gwasanaethau;

Ystyr "**Cytundeb**" yw cytundeb rhwng y Ganolfan a'r Cwsmer ar gyfer darparu Gwasanaethau, sy'n cynnwys cydnabyddiaeth archebu ysgrifenedig y Ganolfan a'r Amodau hyn;

Ystyr "**Cwsmer**" yw unrhyw berson (gan gynnwys unrhyw gwmni, busnes neu endid cyfreithiol arall) sy'n gwneud archeb neu bryniant neu y mae'r Ganolfan yn darparu Gwasanaeth iddo, gan gynnwys rhiant neu warcheidwad cyfreithiol unrhyw blentyn dan 18 oed y darperir Gwasanaeth iddo;

"Plas Menai" yw Plas Menai Outdoor Ganolfan for Wales, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1UE; ac

ystyr "**Gwasanaeth**" yw unrhyw gwrs, gwasanaeth neu gyfleuster a gynigir gan y Ganolfan i'r Cwsmer.

1.2 Os yw'r amodau'n cyfeirio at "**Yr ydym ni**, **Ni**, neu **Ein**", bydd hyn yn golygu'r Ganolfan (ynghyd â'i gweithwyr, ei hasiantau a'i chontractwyr). Os yw'r Amodau'n cyfeirio at "**Chi**, **Eich**, neu **Chi Eich Hun**", bydd hyn yn golygu'r Cwsmer .

1.3 Mae'r penawdau yn yr Amodau hyn er cyfleustra yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar eu perthnasedd.

1.4 Wrth gyfeirio at gyfraith, cyfeirir ati fel y mae mewn grym ar y pryd, gan roi ystyriaeth i unrhyw ddiwygiad, estyniad, defnydd neu ailgread ac mae'n cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth isradd mewn grym ar y pryd yn berthnasol iddi.

1.5 Mae unrhyw gyfeiriad at "ysgrifennu" neu "ysgrifenedig" yn cynnwys e-bost.

2. Defnyddio telerau.

2.1 Yr Amodau hyn yw'r unig Amodau y mae'r Ganolfan yn fodlon eu defnyddio wrth ddelio gyda'r Cwsmer. Bydd yr Amodau hyn yn cael eu cynnwys yn y Cytundeb gan eithrio'n llwyr unrhyw delerau ac amodau eraill (yn cynnwys unrhyw delerau ac amodau y mae'r Cwsmer yn awgrymu eu cynnwys dan unrhyw archeb brynu, cadarnhad o archeb, manyleb neu unrhyw ddogfen arall).

2.2 Bydd yr Amodau hyn uwchlaw unrhyw delerau anghyson a gymeradwyir mewn, a gyflwynir gyda, a gynhwysir yn neu a gyfeirir atynt mewn archeb brynu, cadarnhad o archeb, manyleb neu unrhyw ddogfen neu ddull cyfathrebu arall a dderbynnir gan y Cwsmer neu a awgrymir gan gyfraith, arferion masnachu, arferion eraill neu gyfryngau trafod.

2.3 Mae'r Cwsmer yn derbyn dyfyn-bris am Wasanaethau gan y Ganolfan drwy gyflwyno archeb (boed ar ffurflen ar-lein neu yn ysgrifenedig neu ar lafar dros y ffôn neu wyneb yn wyneb), yn cyfateb i gynnig gan y Cwsmer i brynu'r Gwasanaethau y manylir arnynt yn yr Amodau hyn. Ni dderbynnir unrhyw gynnig a wneir i'r Cwsmer gan y Ganolfan ar wahân i :

2.3.1 drwy gydnabyddiaeth ysgrifenedig a gyhoeddir ac a weithredir gan y Ganolfan; neu

2.3.2 (os yn gynharach) drwy i'r Ganolfan ddechrau darparu'r Gwasanaethau, pryd bydd Contract yn cael ei sefydlu.

3. Archebu

3.1 Yn ddarostyngedig i amod 4.5 isod, gall y Cwsmer wneud archeb gyda'r Ganolfan dros y ffôn, ar e-bost neu ar-lein drwy ein gwefan. Sylwer na ellir archebu llefydd dros dro (ac eithrio pan fo'r archeb yn cael ei hystyried gan y Ganolfan fel archeb gnŵp o dan amod 4.5 isod).

3.2 I'ch helpu i gael hyd i'r cwrs priodol, darllenwch ddisgrifiad pob cwrs yn ofalus. Unwaith y byddwch wedi dewis eich cwrs a'r dyddiadau ac wedi darllen yr amodau archebu, gwnewch eich archeb gyda'r taliad priodol. Ni ellir derbyn archebion heb daliad priodol ymlaen llaw. Mae'n rhaid talu am y cwrs a'r llety cyn cyrraedd.

3.3 Sylwer na allwn roi telerau credyd i unigolion

4. Taliad

4.1 Gall ffioedd a godir gan y Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau fod wedi'u heithrio o TAW neu'n ddarostyngedig i TAW yn unol â'r gyfradd berthnasol, fel y cadarnheir gan y Ganolfan. Ni all y Ganolfan gadarnhau na chadw archebion am Wasanaethau nes ein bod wedi derbyn y taliad priodol isod (a TAW arno, os yw hynny'n berthnasol).

4.2 Y cardiau credyd a debyd a dderbynnir yw: Visa, Delta, MasterCard, Amex, Delta, Maestro, Electron

Archebion Unigol

4.3 Ar gyfer pob archeb i unigolion neu grwpiau bychain ar gyfer Gwasanaethau sydd ar gael i'w harchebu ar-lein drwy wefan y Ganolfan, rhaid talu'n llawn amdanynt wrth archebu. Mae dau ddeg pump y cant (25%) o'r ffi ar gyfer y Gwasanaethau yn flaendal na ellir ei ad-dalu.

4.4 Ceidw'r Ganolfan yr hawl i ganslo unrhyw archeb am Wasanaethau ar unrhyw adeg drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig at y Cwsmer heb roi rhybudd ymlaen llaw, os na dderbynnir y taliad llawn yn unol ag amod 4.3.

Archebion Grŵp

4.5 Nid yw'r Ganolfan yn derbyn archebion grŵp (er enghraifft, grwpiau corfforaethol, ysgol neu grwpiau mawr eraill) am rai Gwasanaethau penodol ar-lein drwy gyfrwng ei gwefan. Ni ellir cadw'r archebion grŵp hyn ac ni fyddant yn cael eu cadarnhau gan y Ganolfan nes bod y Ganolfan yn derbyn y blaendal perthnasol na ellir ei ad-dalu o dan Amod 4.6 neu 4.7 isod (neu'r ffi lawn o dan amod 4.8 isod). Ar ôl i'r Ganolfan dderbyn y blaendal perthnasol (neu'r ffi lawn o dan amod 4.8 isod), bydd y Ganolfan yn anfon cydnabyddiaeth ysgrifenedig o dan amod 2.3.1 isod.

4.6 Ar gyfer archeb grŵp a wneir o leiaf chwe (6) wythnos cyn dechrau'r cwrs, rhaid i'r Cwsmer dalu dau ddeg pump y cant (25%) o'r ffi lawn drwy gyfrwng blaendal na ellir ei ad-dalu o fewn dwy (2) wythnos i gyflwyno'r archeb grŵp a'i derbyn dros dro gan y Ganolfan. Rhaid i'r Cwsmer dalu'r balans sy'n weddill o'r ffi lawn o leiaf chwe (6) wythnos cyn dechrau'r cwrs.

4.7 Ar gyfer archeb grŵp a wneir lai na chwe (6) wythnos cyn dechrau'r cwrs, rhaid i'r Cwsmer dalu hanner cant y cant (50%) o'r ffi lawn drwy gyfrwng blaendal na ellir ei ad-dalu ar unwaith ar ôl cyflwyno'r archeb grŵp a'i derbyn dros dro gan y Ganolfan. Rhaid i'r Cwsmer dalu'r balans sy'n weddill o'r ffi lawn o leiaf dair (3) wythnos cyn dechrau'r cwrs.

4.8 Ar gyfer archeb grŵp a wneir lai na thair (3) wythnos cyn dechrau'r cwrs, rhaid i'r Cwsmer dalu'r ffi lawn ar unwaith ar ôl cyflwyno'r archeb grŵp a'i derbyn dros dro gan y Ganolfan.

4.9 Os na thelir ffi lawn archeb grŵp ar amser o dan amod 4.6 neu 4.7 neu 4.8 uchod, bydd gan y Ganolfan hawl i drin yr archeb grŵp fel pe bai wedi cael ei chanslo gan y Cwsmer.

4.10 Rhaid i'r Ganolfan gytuno, yn ysgrifenedig (yn unol â disgresiwn y Ganolfan yn unig), i unrhyw amrywiad i nifer y rhai sy'n bresennol yn yr archeb grŵp, a gall hynny arwain at ffioedd ychwanegol.

5. Diwygio Archebion y Cwsmer

5.1 Gellir newid y Cwsmer am gwsmer arall ar yr amod y rhoddir o leiaf dwy (2) wythnos o rybudd i'r Ganolfan a bod y cwsmer newydd yn bodloni meini prawf y cwrs. Mae'n rhaid i'r Ganolfan gytuno i unrhyw newid o'r fath a bydd pob newid o'r fath yn arwain at ffi weinyddol o bum punt ar hugain (£25.00) bob tro.

5.2 Gall y Cwsmer wneud cais ysgrifenedig am newid cwrs neu ddyddiadau cwrs, ar yr amod bod yr archeb wreiddiol wedi'i gwneud ddim llai nag wyth (8) wythnos cyn dechrau'r cwrs. Mympwy llwyr y Ganolfan fydd yn penderfynu a dderbynnir newid o'r fath ai peidio. Rhaid i unrhyw newid o'r fath fod ar gyfer cwrs a dyddiad(au) yn ystod y cyfnod canlynol o 12 mis sy'n ymddangos yn ein llyfryn neu ar ein gwefan (wwww.plasmenai.co.uk) a bydd y Cwsmer yn atebol am dalu unrhyw gynnydd perthnasol yn ffi'r cwrs neu'r llety. Ceir ffi weinyddol o bum punt ar hugain (£25.00) am bob cwrs a newidir.

Os bydd Cwsmer yn gofyn am newid cwrs o fewn chwe (6) wythnos i ddechrau'r cwrs hwnnw, bydd cais o'r fath yn cael sylw yn unol ag amod 6 (Canslo).

6. Canslo

6.1 Y Cwsmer yn Canslo

6.1.1 Rhaid i'r Cwsmer ganslo unrhyw archeb (ac eithrio dan amod 4.9 uchod) yn ysgrifenedig a rhaid i hynny gael ei gydnabod gan y Ganolfan. Byddwn yn sicrhau bod y ffurflen ganslo safonol ar gael ar y wefan. Mae posib i chi ddefnyddio'r ffurflen hon, ond nid yw hynny'n orfodol.

6.1.2 Os bydd y Cwsmer yn canslo, bydd ffi ganslo'n ddyledus i'r Ganolfan, fel y nodir isod:

- nid oes modd ad-dalu'r blaendal.

- chwe (6) wythnos neu fwy cyn dechrau'r cwrs / achlysur: y blaendal yn unig yn daladwy;

- pythefnos (2 wythnos) i chwe (6) wythnos cyn dechrau'r cwrs / achlysur: saith deg pump y cant (75%) o gyfanswm ffi eich cwrs yn cael ei gadw gan y Ganolfan;

- pythefnos (2 wythnos) neu lai cyn dechrau'r cwrs / achlysur: cant y cant (100%) o gyfanswm ffi eich cwrs yn cael ei gadw gan y Ganolfan; a

- cedwir cant y cant (100%) o ffi'r cwrs os byddwch yn canslo wedi dyddiad dechrau eich cwrs.

6.2 Y Ganolfan yn Canslo

6.2.1 Bydd y Ganolfan yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eich cwrs yn cael ei gynnal yn unol â'ch archeb. Fodd bynnag, ceidw'r Ganolfan yr hawl i ganslo unrhyw archeb heb unrhyw rybudd ymlaen llaw ar unrhyw adeg os ydym yn credu ar sail resymol bod canslo o'r fath yn angenrheidiol oherwydd amodau anaddas.

6.2.2 Ceidw'r Ganolfan yr hawl i ganslo cwrs gyda dim llai na phedwar diwrnod ar ddeg (14) o rybudd os cred y Ganolfan, ar sail resymol, nad oes digon o niferoedd wedi cofrestru ar gyfer cynnal y cwrs.

6.2.3 Os bydd y Ganolfan yn canslo cwrs, byddwch yn cael cynnig yr opsiynau a ganlyn:

- cwrs arall ar yr un dyddiad neu gyfres arall o ddyddiadau .

Bydd y Ganolfan yn gofyn i chi gadarnhau'r opsiwn rydych chi wedi'i ddewis ac efallai y bydd angen hyn yn ysgrifenedig.

7. Diogelwch - TYNNIR SYLW'R CWSMER YN ARBENNIG AT DDARPARIAETHAU'R AMOD HWN

7.1 Yn ychwanegol at bleser a dysgu sgiliau newydd, mae diogelwch yn hollbwysig ar holl gyrsiau'r Ganolfan. Wrth reswm, mae chwaraeon dŵr a gweithgareddau antur yn beryglus o ran eu natur ac mae'n rhaid i'r cyfranogwyr a'r rhieni neu eu gwarcheidwaid dderbyn y ceir rhyw faint o risg ac y bydd ambell glais neu friw bach yn anochel wrth fwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau cyflym. Bydd y Ganolfan yn darparu Gwasanaethau gyda sgil a gofal rhesymol. Wrth ddarparu system waith briodol a rheoli risgiau cysylltiedig, rydym yn gweithredu mesurau iechyd a diogelwch amrywiol, gan gynnwys cymwysterau a hyfforddiant staff priodol, offer gwarchodol a diogelwch, a pholisïau a gweithdrefnau a adolygir yn rheolaidd.

Trwy wneud hynny, rydym yn cadw'r hawl i addasu neu ganslo gweithgaredd os ydym yn teimlo nad oes modd rheoli'r peryglon.

7.2 Rhaid i'r Cwsmer gydymffurfio â'r holl bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, a chyfarwyddiadau eraill a roddir gan y Ganolfan a'i staff awdurdodedig priodol, gan gynnwys y rhai perthnasol i dân a gadael yr adeilad.

8. Iechyd

8.1 Mae'n rhaid i'r Cwsmeriaid sy'n cymryd rhan yng nghyrsiau neu wasanaethau'r Ganolfan ddeall y byddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau anturus neu egnïol. Mae'n rhaid i'r Cwsmeriaid fod yn gyffredinol iach a'u bodloni eu hunain eu bod yn gallu cyflawni'r gweithgaredd..

8.2 Rhaid i'r Cwsmer lenwi a chyflwyno datganiad iechyd i'r Ganolfan fel rhan o'r broses archebu. Rhaid i'r Cwsmer sicrhau bod y Ganolfan yn ymwybodol o unrhyw anaf a/neu salwch sydd ganddo a hefyd bydd yn sicrhau bod tîm archebu'r Ganolfan yn dod i wybod am unrhyw anaf neu salwch sy'n digwydd rhwng dyddiad llenwi'r datganiad iechyd gan y Cwsmer a dyddiad dechrau'r cwrs.

8.3 Ceidw'r Ganolfan yr hawl i wrthod archeb ar sail feddygol os credir y bydd cyflwr meddygol yn amharu ar ddiogelwch a llyfnder cwrs.

9. Gofynion Mynediad a Deiet Arbennig

Dylid rhoi gwybod am unrhyw ofynion mynediad a deiet arbennig sydd gan y Cwsmer i'r Ganolfan wrth archebu. Bydd y Ganolfan yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni'r gofynion hyn.

10. Cwynion

10.1 Os caiff y Cwsmer broblem neu os cyfyd mater perthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Ganolfan, bydd y Ganolfan yn ceisio datrys problem neu fater o'r fath cyn gynted ag y bo modd. Os na fydd modd datrys y problem, bydd raid i'r Cwsmer roi gwybod amdani i hyfforddwr y cwrs perthnasol neu yn nerbynfa'r Ganolfan.

10.2 Os na chaiff y Cwsmer ymateb boddhaol wedi'r digwyddiadau a nodir yn amod 10.1, gall y Cwsmer ofyn am weld tîm rheoli'r Ganolfan.

10.3 Os na chaiff cwyn y Cwsmer ei datrys yn foddhaol yn unol ag amodau 10.1 a 10.2, ysgrifennwch at: "Rheolwr y Ganolfan, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol, Plas Menai, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1UE".

11. Ymddygiad Afreolus

11.1 Mae'n ofynnol i'r cwsmer ystyried pobl eraill. Os bydd y Cwsmer, ym marn resymol y Ganolfan, yn ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi neu'n debygol o achosi perygl, anesmwythyd neu ofid i drydydd parti, neu ddifrodi eiddo neu darfu neu ymddwyn mewn unrhyw ffordd arall afreolus neu wrthgymdeithasol ("Ymddygiad Afreolus"), mae gan y Ganolfan hawl, heb rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw, i derfynu arhosiad y Cwsmer / ei ddefnydd o'r cyfleusterau neu Wasanaethau eraill. Bydd yn ofynnol i'r bobl hyn adael eiddo'r Ganolfan ac ni roddir unrhyw ad-daliad ac ni fydd y Ganolfan yn talu unrhyw gostau neu dreuliau o ganlyniad i derfynu'r arhosiad.

11.2 Mae'r Ganolfan yn gweithredu polisi dim goddefgarwch tuag at ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon neu fod â sylweddau anghyfreithlon yn eich meddiant, neu'r hyn a elwir yn "anterth cyfreithlon ("legal highs"). Mae defnydd neu feddiant o unrhyw rai ohonynt gan Gwsmer yn cael ei ystyried fel Ymddygiad Afreolus o dan amod 11.

11.3 Bydd y Cwsmer yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled a ddioddefir gan y Ganolfan o ganlyniad i Ymddygiad Afreolus y Cwsmer.

12. Cyfyngiadau Atebolrwydd – TYNNIR SYLW'R CWSMER YN ARBENNIG AT DDARPARIAETHAU'R AMOD HWN

12.1 Mae Amod 12 yn datgan atebolrwydd ariannol llawn y Ganolfan (yn cynnwys unrhyw atebolrwydd am weithredoedd neu ddiffyg ei gyflogeion, ei asiantau a'i isgontractwyr) i'r Cwsmer mewn perthynas â:

12.1.1 torri'r Cytundeb mewn unrhyw ffordd;

12.1.2 unrhyw ddefnydd a wneir gan y Cwsmer o'r Gwasanaethau;

12.1.3 unrhyw gynrychiolaeth, datganiad neu weithred neu ddiffyg trofaus (yn cynnwys esgeulustod) a gyfyd mewn perthynas â neu fel rhan o'r Cytundeb hwn.

12.2 Mae pob gwarant, a'r holl amodau a thelerau eraill a gyflwynir gan statud neu ddeddf gyffredin, a ganiateir i'r graddau eithaf gan y gyfraith, wedi'u heithrio o'r Cytundeb.

12.3 Nid oes unrhyw beth yn yr Amodau hyn yn cyfyngu ar nac yn eithrio atebolrwydd y Ganolfan:

12.3.1 am farwolaeth neu anaf personol yn sgil esgeulustod gan y Ganolfan; neu

12.3.2 am unrhyw ddifrod neu atebolrwydd i'r Cwsmer o ganlyniad i dwyll neu gamgynrychiolaeth dwyllodrus ar ran y Ganolfan.

12.4 Yn ddarostyngedig i amodau 12.2, 12.3 a 12.5:

12.4.1 ni fydd y Ganolfan y atebol boed mewn camwedd (yn cynnwys am esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol), cytundeb, camgynrychiolaeth neu fel arall am: golli elw; colli busnes; hysbyddu ewyllys da a / neu golledion tebyg; colli cynilion rhagdybiol; colli nwyddau; colli cytundeb; colli defnydd; colli data neu wybodaeth; neu unrhyw golled economaidd arbennig, anuniongyrchol, ganlyniadol neu bur, costau, difrod, ffioedd neu dreuliau; a

12.4.2 bydd atebolrwydd llwyr y Ganolfan mewn cytundeb, camwedd (yn cynnwys esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol), camgynrychiolaeth, adferiad neu fel arall a gyfyd mewn perthynas â pherfformiad neu berfformiad rhagdybiol y Cytundeb yn gyfyngedig i'r pris a dalwyd gan y Cwsmer am y Gwasanaethau.

12.5 Mae unrhyw eiddo personol sy'n perthyn i'r Cwsmer yn gyfrifoldeb y Cwsmer yn unig bob amser. Ni fydd y Ganolfan yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod a achosir i eiddo personol y Cwsmer, oni bai fod unrhyw golled neu ddifrod yn ganlyniad i esgeulustod ar ran y Ganolfan neu ei gynrychiolwyr.

12.6 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd y Ganolfan yn atebol mewn unrhyw ffordd am golled neu ddifrod a ddioddefir gan y Cwsmer neu unrhyw berson arall o ganlyniad i unrhyw esgeulustod neu weithred amhriodol ar ran y Cwsmer.

13. Eiddo Deallusol

Bydd yr hawlfraint a'r holl hawliau eraill perthnasol i eiddo deallusol yn y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddangosir yn llyfrynnau, gwefan a deunyddiau eraill y Ganolfan yn parhau'n eiddo i'r Ganolfan bob amser.

14. Ffotograffau neu Glipiau Fideo

Gall ffotograffau neu glipiau fideo o Gwsmeriaid a dynnir gan neu ar ran y Ganolfan ymddangos yn ein llyfrynnau a'n deunyddiau marchnata neu ar gyfryngau cymdeithasol. Os nad yw Cwsmeriaid yn dymuno cael tynnu eu lluniau neu eu ffilmio, neu os nad ydynt yn dymuno i ffotograffau neu glipiau fideo ohonynt gael eu defnyddio at y dibenion uchod, ticiwch neu ddad-dicio'r bocs perthnasol ar y ffurflen archebu neu codwch y mater hwn gyda hyfforddwr y cwrs.

15. Gwarchod Data

15.1 Mae unrhyw wybodaeth bersonol y gwneir cais amdani gan y Ganolfan wrth archebu neu unrhyw wybodaeth a gyflwynir wedyn yn cael ei chadw yn ei ffurf wreiddiol ac ar gyfrifiadur .

15.2 Y Ganolfan:

15.2.1 yw rheolwr y data at ddiben Deddf Gwarchod Data 1998;

15.2.2 bydd yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a Pholisi Preifatrwydd y Ganolfan a dim ond yn unol â'n Polisi Preifatrwydd y bydd yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd partïon.

15.3 Drwy ddarparu gwybodaeth bersonol amdanoch chi eich hun i ni er mwyn prosesu archeb, rydych yn cytuno i'ch gwybodaeth bersonol:

15.3.1 gael ei chadw a'i gweld gan staff awdurdodedig y Ganolfan; a

15.3.2 gael ei defnyddio i gysylltu â chi naill ai ar e-bost a/neu drwy'r post i anfon ein e-newyddion a/neu ddeunyddiau marchnata eraill atoch chi (gan gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y dyfodol) oni bai eich bod yn optio allan o hyn.

15.4 Os nad ydych chi eisiau i ni ddefnyddio eich data i anfon ein e-newyddion a/neu ddeunyddiau marchnata eraill atoch chi ar e-bost a/neu drwy'r post, ticiwch neu ddad-dicio'r bocs(ys) perthnasol sydd ar y ffurflen archebu ble rydym yn casglu eich data**.** Hefyd, mae gennych hawl i ddewis peidio â derbyn unrhyw e-newyddion a / neu ddeunyddiau marchnata o'r fath ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni drwy e-bost yn info@plasmenai.co.uk neu drwy ffonio 01248 670964.

16. Amgylchiadau Y Tu Hwnt i'n Rheolaeth Ni

Ni fydd y Ganolfan yn atebol mewn unrhyw ffordd i'r Cwsmer dan y Cytundeb os caiff ei hatal neu os bydd oedi gyda chyflawni dyletswyddau dan y Cytundeb neu os caiff ei hatal rhag cyflawni ei busnes yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan weithredoedd, digwyddiadau, hepgoriadau neu ddamweiniau y tu hwnt i'w rheolaeth resymol, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: gweithred gan Dduw, rhyfel, ymosodiad, gwrthryfel, cythrwfl, dadwrdd sifil, anhrefn, difrod maleisus, tân, llifogydd, epidemig, cyfyngiadau cwarantîn, streiciau, cloi drysau neu unrhyw anghydfod diwydiannol arall (boed yn cynnwys gweithlu'r Ganolfan neu unrhyw un arall), methiant cyfleustod neu rwydwaith cludiant, cydymffurfiaeth ag unrhyw gyfraith neu orchymyn, rheol neu gyfarwyddyd amgylcheddol, damwain, diffyg ar beiriannau, tywydd anarferol o ddifrifol neu darfu ar gyflenwad egni neu ddiffyg cyflenwyr neu isgontractwyr.

17. Hawliau Trydydd Parti

Ni fydd gan berson nad yw'n rhan o'r cytundeb hwn (ac eithrio, pan fo hynny'n berthnasol, unrhyw olynwyr neu aseiniaid a ganiateir) unrhyw hawliau oddi tano, nac yn rhinwedd neu mewn cysylltiad â Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

18. Ildio

Ceidw'r Ganolfan yr hawl i ildio unrhyw rai o'r Amodau, neu'r holl Amodau.

19. Cyfraith Berthnasol

19.1 Rheolir y Cytundeb ac unrhyw anghydfod neu hawliad a gyfyd ohono neu mewn perthynas ag ef neu ei bwnc perthnasol gan ddeddf Cymru a Lloegr fel y defnyddir yng Nghymru ac fe'i dehonglir yn unol â hynny.

19.2 Mae'r Cwsmer yn cytuno'n ddiwrthdro y bydd unrhyw anghydfod neu hawliad a gyfyd o'r Cytundeb hwn neu mewn perthynas ag ef neu ei bwnc perthnasol yn cael sylw yn unol â deddfwriaethau eithriol llysoedd Cymru a Lloegr.